Eitem 7 ar yr Agenda **24 Medi 2010** **PCC 26.10**

YMCHWIL GOEDWIG YNG NGHYMRU - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF

Pwrpas

1. Pwrpas y papur hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cenedlaethol am ddatblygiadau cyfredol Ymchwil Goedwig yng Nghymru.

Rheoli

2. Cynhaliwyd cyfarfod canol blwyddyn y Bwrdd Gweithredol Ymchwil Goedwig yn Nhal-y-bont ym mis Gorffennaf, gan adlewyrchu nod y Bwrdd sef cynnal un cyfarfod llawn y flwyddyn yng Nghymru. Cyn y cyfarfod, ymwelwyd â safleoedd llarwydd yn Ne Cymru yr effeithiwyd arnynt gan Phytophthora ramorum (Hugh Evans, Peter Freer-Smith ac Andy Moffat).

3. Ymwelodd James Pendlebury â Thal-y-bont ar 16 ac 17 Awst i siarad ag aelodau staff YG am yr adolygiad gwario presennol ac i ymweld â safleoedd yn Ne Cymru yr effeithiwyd arnynt gan Phytophthora ramorum.

Staffio

4. Mae nifer aelodau staff YG yng Nghymru wedi cynyddu ers yr adroddiad diwethaf:

   - Mae Finlay McAllister wedi ymuno â'r tîm ac yn gweithio ar brosiect IMPACT Interreg IVA. Mae wedi'i leoli yn Aberystwyth.
   - Ymunodd Helen John ag YG ar secondiad blwyddyn i weithio ar brosiect Arloesi a Marchnadoedd Newydd i werthuso'r achos busnes ar gyfer rheoli ailstocio yn y dyfodol, yn bennaf i asesu swyddogaeth nematodau fel rheolaeth fiolegol.
   - Penodwyd myfyriwr PhD ardderchog, Twilight Barnardo, i ysgoloriaeth ymchwil Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Gwybodaeth gyda'r Athro Richard Lucas o Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau'r Ddaear, Aberystwyth; Hugh Evans a Juan Suarez yw goruchwylwyr yr YG. Y testun yw *Echdynnu ar sail cyfrifiadur o briodoleddau strwythur coedwig a maint/biomas o ddata daearol a sganiwyd gan laser.*

Cyfleoedd ariannol ac ymchwil

5. Mae prosiect Rhaglen Fframwaith 7 yr UE ar y risgiau o nematodau coed pinwydd, a gydlynwyd gan Hugh Evans, wedi bod yn llwyddiannus ac mae contract yn cael ei drafod. Mae'r prosiect yn debygol o gychwyn yn Ionawr 2011 ac fe'i cefnogir gan fodelydd PB5 newydd yn cydweithio â Hugh Evans yn Aberystwyth.

6. Cymeradwywyd Gweithrediad COST UE ar lwybrau i symud plâu a phathogenau (PERMIT), dan arweiniad Hugh Evans a bydd yn cychwyn yn Nhachwedd 2010. Bydd hyn yn cynnwys gwyddonwyr a rheolyddion mewn 23 gwlad COST a 6 gwlad nad ydynt yn rhan o COST.

7. Gwnaed cynnydd da iawn i gwmpasu llwyfan ymchwil Coedwig Ymchwil/Labordy naturiol ar raddfa dalgylch yn Afon Dyfi ac mae'r gwaith yn cyflymu. Mae Hugh Evans yn cydweithio'n agos iawn â'r Athro Mark Macklin a'r Athro Chris Thomas o Brifysgol Aberystwyth i ddatblygu'r cysyniadau ac i gynllunio cyflawni. Mae cyfarfodydd ardderchog wedi'u cynnal ag Andy Rowland ac Allan Wynne Jones o Dyfi Biosphere ac EcoDyfi yn y drefn honno. Cyflwynodd Hugh y cynnig am lwyfan ymchwil mewn cyfarfod o'r Biosphere a drefnwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar 15 Medi. Y nod yw datblygu llwyfan ymchwil, gan adeiladu ar y data cynhwysfawr sydd eisoes wedi'u casglu yn nalgylch Afon Dyfi ac i ddatblygu cynigion ar y cyd am gyllid i wneud yr ymchwil er mwyn tanategu casglu tystiolaeth yn enwedig am Wasanaethau Ecosystem. Roedd cefnogaeth frwd i'r cynnig yn y cyfarfod. Ynghylch coetiroedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn nalgylch Afon Dyfi, dengys trafodaethau adeiladol gyda Ruth Jenkins a David Farmery y bydd ymchwil i gynnal cadw at y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r agenda cymdeithasol ar gyfer coetiroedd yn elfennau allweddol o'r llwyfan ymchwil newydd.

Risgiau

8. Gwnaed cynnydd da i ddatblygu YG yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ariannol yn para'n anodd, yn enwedig mewn cysylltiad â'r adolygiad gwario cynhwysfawr. Mae llwyddo i ennill contractau allanol newydd yn golygu gorfod recriwtio aelodau staff newydd a gallai'r rhewi presennol ar apwyntiadau newydd effeithio ar gyflawni'r contractau.

Cyfathrebu

9. Mynychodd nifer dda iawn Weithdai Newid yn yr Hinsawdd a gynhaliwyd yn Llandrindod ar 18 Mai a chafwyd llawer o sylwadau ffafriol amdano. Mae'r cyflwyniadau o'r gweithdy ar gael ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth (<http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-83UKD6>).

10. Cynhaliodd Ymchwil Goedwig ddigwyddiad 'cyfarfod â'r tîm YG' yn Sioe Frenhinol Cymru ar ddydd Mawrth 20 Gorffennaf. Mynychodd nifer dda'r digwyddiad a bu nifer o gysylltiadau a thrafodaethau yn sgil hynny.

Argymhelliad

11. Gofynnir i'r Pwyllgor Cenedlaethol nodi cynnwys y papur hwn.

Hugh Evans
Pennaeth Ymchwil Goedwig yng Nghymru
16 Medi 2010